

fflecsi

AP SYMUDOL FFLECSI TRAFNIDIAETH CYMRU: TELERAU DEFNYDD AR GYFER CWSMERIAID YNG NGHYMRU

DARLLENWCH Y TELERAU HYN YN OFALUS CYN COFRESTRU NEU DDEFNYDDIO'R AP

1. Y TELERAU HYN

- 1.1 Dyma'r amodau a'r telerau sy'n sail i ddarparu gwasanaethau a chynnwys digidol i chi drwy Ap Symudol Fflecsi Trafnidiaeth Cymru (yr "Ap").
- 1.2 Yn ogystal â'r Telerau hyn, mae eich defnydd o'r Ap hefyd yn amodol ar unrhyw delerau eraill a ddygir i'ch sylw wrth ddefnyddio'r Ap.
- 1.3 Nid yw Trafnidiaeth Cymru yn rhedeg gwasanaethau bws, ac mae eich defnydd o unrhyw gerbydau y gofynnir amdanynt drwy'r Ap yn gwbl ddarostyngedig i amodau'r cerbyd ar gyfer cwmni'r gwasanaeth rydych chi wedi'i archebu ac unrhyw amodau cludo penodol fflecsi a nodir yn adran 13 y Telerau hyn.
- 1.4 Wrth gofrestru a defnyddio ein Ap, rydych yn cytuno i gydymffurfio â'r Telerau hyn ac unrhyw gyfyngiadau neu delerau eraill a ddygir i'ch sylw wrth gofrestru drwy'r Ap neu wrth ei ddefnyddio o bryd i'w gilydd.

2. GWYBODAETH AMDANOM NI A SUT I GYSYLLTU Â NI

- 2.1 Ni yw Trafnidiaeth Cymru ("TrC") ac mae ein swyddfa gofrestredig yn 3 Llys Cadwyn, Pontypridd, Rhondda Cynon Taf, CF37 4TH. Rydym yn darparu'r Ap i chi er mwyn hwyluso trafndiaeth seiliedig ar alw ar wasanaethau penodol yng Nghymru drwy gynnig plattform i chi archebu eich teithiau bws ymlaen llaw a darparu'r wybodaeth archebu honno i'r cwmni bysiau Cymreig perthnasol sy'n darparu'r gwasanaeth a archebir.
- 2.2 Gallwch gysylltu â ni drwy e-bostio helo@fflecsi.cymru neu ffonio ein rhif gwasanaeth cwsmeriaid ar 0300 234 0300.

3. ADRAN CYMHWYSTRA

Oedran

Bydd gan unigolion 18 oed a throsodd yr hawl i gofrestru a defnyddio'r Ap i archebu teithiau. Gall pobl rhwng 16 a 18 oed hefyd gael eu cyfrifon eu hunain, ond rhaid iddynt gael caniatâd gan eu rhiant neu warcheidwad.

4. MANYLION COFRESTRU A MEWNGOFNODI

- 4.1 Gallwch lawrlwytho'r Ap o siopau ar-lein iOS ac Android ar eich ffôn clyfar neu lechen. Er mwyn defnyddio'r Ap, rhaid i chi gofrestru gwybodaeth benodol i greu cyfrif i'w ddefnyddio gyda'r Ap. Er mwyn greu eich cyfrif eich hun, rhaid darparu enw defnyddiwr, cyfrinair, rhif ffôn symudol yn y DU a chyfeiriad e-bost.
- 4.2 Chi sy'n gyfrifol am eich manylion mewngofnodi ac am gadw eich gwybodaeth yn gywir.
- 4.3 Chi sy'n gyfrifol am unrhyw weithgaredd sy'n deillio o ddefnyddio eich manylion mewngofnodi ar yr Ap.
- 4.4 Rydych chi'n nodi ac yn gwarantu y bydd y wybodaeth a roddwch i TrC wrth ddefnyddio'r Ap ac ar bob adeg arall yn y broses archebu yn wir, yn gywir, yn gyfredol ac yn gyflawn.
- 4.5 I ddefnyddio'r Ap, mae angen i chi fewngofnodi drwy ddarparu'r enw defnyddiwr a'r cyfrinair a grëwyd gennych wrth gofrestru. Mae eich cyfrif yn bersonol i chi, ac ni chewch rannu gwybodaeth eich cyfrif gyda thrydydd parti.
- 4.6 Os oes gennych unrhyw reswm i gredu bod gwybodaeth eich cyfrif wedi'i pheryglu neu fod trydydd parti wedi cael mynediad i'ch cyfrif, rydych yn cytuno i roi gwybod i TrC ar unwaith drwy e-bost i helo@fflecsi.cymru. Chi fydd yn gyfrifol am y colledion a ysgwyddir gan TrC ac eraill oherwydd unrhyw ddefnydd anawdurdodedig o'ch cyfrif.

5. GWASANAETHAU

- 5.1 Bydd yr Ap yn eich galluogi i archebu ymlaen llaw a thracio taith ar gerbydau cwmni bysiau sydd wedi optio i mewn i'r cynllun trafndiaeth fflecsi. Mae'r Ap wedi'i gynllunio i gwmpasu pob elfen o'r gwasanaeth archebu gan gynnwys cadarnhad o'ch man casglu a'r holl wasanaethau eraill sydd ar gael i chi drwy'r Ap. Unwaith y bydd taith wedi'i harchebu, mae modd galluogi hysbysiau ar ffonau clyfar neu dabledi hefyd er mwyn derbyn negeseuon atgoffa am deithiau a derbyn gwybodaeth ychwanegol am eich taith yn nes at y diwrnod teithio ei hun, fel rhif cofrestru'r cerbyd ac amcangyfrif byw o amser cyrraedd y cerbyd. Cyfeirir at y gwasanaethau hyn ar y cyd yn y Telerau hyn fel y "**Gwasanaethau**".
- 5.2 Cofiwch fod eich siwrnai gyda'r cwmni bysiau wedi'i rheoli gan contract ar wahân rhyngoch chi a'r cwmni bysiau, o'r enw 'amodau cludo'. Nid yw TrC yn gyfrifol am newidiadau i'ch taith ar ôl i chi wneud archeb nac am unrhyw oedi i'ch taith neu os yw'n cael ei chanslo. Dylech ddarllen cymal 14 isod i ddeall rhwymedigaethau cyfreithiol y cwmni bysiau i chi a'ch rhwymedigaethau wrth i chi deithio yn eu cerbyd.

6. TEITHWYR YCHWANEGOL

- 6.1 Os ydych chi'n archebu lle a bod nifer o bobl yn teithio gyda chi, yna chi, fel deiliad y cyfrif sy'n gysylltiedig â'r archeb, sy'n gyfrifol am ymddygiad pawb sy'n teithio gyda chi.
- 6.2 Pan fyddwch yn archebu lle ar gyfer nifer o bobl, rhaid i chi nodi faint o bobl sy'n teithio gyda chi a darparu manylion cyswllt y teithwyr hyn i ni os gofynnir i chi wneud hynny. Os na rowch chi'r manylion hyn, bydd hawl gan y cwmni bysiau, yn ôl ei ddisgresiwn ei hun, i wrthod caniatâd i'r teithwyr ychwanegol nad oed modd eu hadnabod, fynd ar y bws.

7. TALU

7.1 Mae'r Ap yn rhad ac am ddim i'w ddefnyddio a does dim unrhyw ffi archebu gysylltiedig wrth ddefnyddio ein Gwasanaethau. Ni fyddwn yn gofyn i chi ddarparu unrhyw fanylion cerdyn banc na chofrestru debyd uniongyrchol wrth ddefnyddio'r Ap.

7.2 Gwneir taliad ar gyfer eich taith i yrrwr y cwmni bysiau ar y diwrnod teithio ac nid yw Trafnidiaeth Cymru yn gyfrifol am brosesu unrhyw daliadau. Rheolir polisïau talu'r cwmni bysiau gan amodau cludo ar wahân. Dylech ymgyfarwyddo â chymal 14 isod i ddeall rhwymedigaethau cyfreithiol y cwmni bysiau i chi a'ch rhwymedigaethau chi wrth i chi deithio yn eu cerbyd.

7.3 Canslo

Rydym yn deall y gall fod angen i chi newid eich trefniadau weithiau. Felly, ni fyddwn yn codi ffi ganslo arnoch os byddwch yn canslo archeb a wneir gan yr Ap. Fodd bynnag, mae canslo rheolaidd yn effeithio ar allu cwmni bysiau i ddarparu gwasanaeth da i deithwyr eraill, felly os byddwch yn canslo dro ar ôl tro, byddwn yn cadw'r hawl i atal eich cyfrif yn ôl ein disgrisiwn ni, a pheidio â derbyn rhagor o archebion gennych.

7.4 Polisi peidio ag ymddangos a chanslo hwyr

(a) Gall achosion rheolaidd o beidio ag ymddangos a/neu ganslo hwyr (canslo llai nag awr cyn eich amser casglu a gadarnhawyd) effeithio ar allu cwmni bysiau i ddarparu gwasanaeth da i deithwyr eraill hefyd. Os oes gennych archeb sy'n bodoli eisoes na allwch chi ei defnyddio wedyn, canslwch eich archeb cymaint â phosibl ymlaen llaw naill ai drwy ein ffonio neu ganslo drwy'r Ap fel y gallwn ailddyrrannu'r lle ar y bws i deithwyr eraill sydd angen defnyddio'r gwasanaeth.

(b) Pan fyddwch yn canslo taith lai nag awr cyn eich amser casglu a drefnwyd, yn archebu dro ar ôl tro cyn canslo taith neu'n methu â chyrraedd y lleoliad casglu dynodedig ar yr adeg ddynodedig ar sawl achlysur heb reswm da, rydym yn cadw'r hawl i ganslo unrhyw archebion presennol sydd gennych a/neu atal eich cyfrif am gyfnod fel y tybiwn sy'n briodol. Bydd hyd y gwaharddiad ar eich cyfrif yn cael ei bennu yn ôl ein disgrisiwn llwyr. Os byddwn yn dewis canslo eich archebion presennol neu atal eich cyfrif, cewch wybod am ein penderfyniad yn ysgrifenedig (gan gynnwys y rhesymau dros benderfyniad o'r fath).

(c)

- (d)
- (e)
- (f) Cyfathrebu
- (g) Drwy gofrestru i ddefnyddio'r Ap rydych yn cytuno eich bod wedi darllen a deall Polisi Preifatrwydd TrC sydd ar gael ar www.fflecsi.cymru. Mae ein Polisi Preifatrwydd yn esbonio sut rydym yn trin ac yn defnyddio eich data personol.
- (h) Rydych chi'n cytuno i dderbyn negeseuon testun SMS a galwadau'n ymwneud â'ch taith ar y rhif ffôn symudol a ddarparwyd gennych wrth gofrestru ar gyfer defnyddio'r Ap.
- (i) Drwy gofrestru i ddefnyddio'r Ap neu ddarparu gwybodaeth bersonol i ni, rydych chi'n cytuno y gallwn gyfathrebu'n electronig â chi ar faterion diogelwch, preifatrwydd a gweinyddol sy'n gysylltiedig â defnyddio'r Ap. Os bydd system ddiogelwch yr Ap mewn perygl, efallai y byddwn yn ceisio rhoi gwybod i chi'n electronig drwy bostio neges ar yr Ap neu anfon neges destun atoch.
- (j) Efallai y byddwn yn anfon neges destun SMS i'r rhif ffôn a ddarparwyd gennych wrth gofrestru drwy'r Ap (i) pan fyddwch yn archebu taith, (ii) pan fydd cerbyd y cwmni bysiau yn nesáu at y man casglu dynodedig, (iii) pan fydd cerbyd y cwmni bysiau yn y man casglu dynodedig neu (iv) pan fyddwch yn ailosod eich cyfrinair drwy'r Ap. Efallai y bydd cyfraddau negeseuon testun SMS a chyfraddau data, fel a bennir gan eich cwmni wi-fi, yn berthnasol. Trwy gofrestru drwy'r Ap, rydych yn cytuno i dderbyn y negeseuon testun hyn.

8. YMWADIADAU, CYFYNGIADAU A GWAHARDDIADAU CYNNWYS TRYDYDD PARTI

- 8.1 Chi sy'n gyfrifol am eich gweithredoedd wrth ddefnyddio a dibynnu ar yr Ap neu'r cynnwys sydd ar gael drwyddo.
- 8.2 Nid ydym yn honni nac yn gwarantu gonestrwydd, cywirdeb, na dibynadwyedd y cynnwys, a bostiwyd gan drydydd partion ("**Cynnwys Trydydd Parti**"). Rydych yn derbyn mai eich cyfrifoldeb chi fydd unrhyw ddibyniaeth ar ddeunydd a bostiwyd gan ddefnyddwyr eraill neu ddarparwyr gwasanaeth trydydd parti.
- 8.3 Rydych yn cytuno i ddefnyddio'r Ap at y diben y bwriadwyd ef ar ei gyfer yn unig. Rhaid i chi ddefnyddio'r Ap yn unol â phob polisi preifatrwydd, diogelu data, eiddo deallusol a chyfreithiau perthnasol eraill. Gwaherddir y defnydd canlynol o'r Ap.
- 8.4 Rhaid i chi beidio â gwneud y canlynol:
 - (a) ceisio ymyrryd â, niweidio, ôl-beiriannu, dwyn gan, neu gael mynediad anawdurdodedig i'r Ap, cyfrifon defnyddwyr, neu'r dechnoleg a'r offer sy'n ategu'r Ap;
 - (b) fframio, drychweddu neu gysylltu â'r Ap heb ganiatâd;
 - (c) defnyddio dulliau cloddio data, robotau, corynnod y we, feirysau neu fwydod neu ddyfeisiau casglu data eraill ar neu drwy'r Ap, gan gynnwys unrhyw raglen a all

wneud ceisiadau gweinydd lluosog bob eiliad, neu roi gormod o faich neu lesteirio gweithrediad neu berfformiad yr Ap;

- (d) postio neu lanlwytho gwybodaeth anghyflawn, ffug neu gamarweiniol i'r Ap, dynwared unigolyn arall, neu gamliwio eich cysylltiad ag unigolyn neu endid;
- (e) datgelu gwybodaeth bersonol am rywun arall, neu bostio, anfon neu storio deunydd sy'n torri'r gyfraith, sy'n faswedus, yn fygythiol, yn enllibus neu'n gamwedus, gan gynnwys deunydd niweidiol i blant, sy'n torri hawliau trydydd partion, neu y bwriedir iddo aflonyddu, cam-drin, neu ddiraddio unigolyn arall;
- (f) gwerthu, trosglwyddo, neu aseinio unrhyw rai o'ch hawliau i ddefnyddio'r Ap i drydydd parti heb ein caniatâd ysgrifenedig penodol;
- (g) postio dolenni neu gynnwys hysbysebu neu gysylltiadau marchnata, gan gynnwys sbam neu negeseuon sy'n dyblygu ac yn ddigymell fel arall, ac eithrio rhai a ganiateir yn benodol dan y telerau hyn;
- (h) defnyddio'r Ap mewn ffordd anghyfreithlon neu i gyflawni gweithred anghyfreithlon mewn perthynas â'r Ap neu sy'n arwain fel arall at ddirwyon, cosbau, a rhwymedigaeth arall i Trafnidiaeth Cymru neu eraill; neu
- (i) cyrchu'r Ap o awdurdodaeth lle mae hynny naill ai'n anghyfreithlon neu heb ei awdurdodi.

9. EIDDO DEALLUSOL

- 9.1 Mae holl eiddo deallusol meddalwedd yr Ap yn perthyn i Via Transportation, Inc., 226 5th Avenue, 3rd Floor, New York, New York 10001 ("**Via**").
- 9.2 Awdurdodir Trafnidiaeth Cymru i roi caniatâd i chi ddefnyddio'r Ap, yn amodol ar gydymffurfio â holl rwymedigaethau'r telerau hyn.
- 9.3 Trwy ddefnyddio'r Ap, rydych yn deall ac yn cytuno na fyddwch yn cael unrhyw hawl, teitl neu fuddiant yn y cyfryw gynnwys a gyflwynir drwy'r Ap neu mewn unrhyw hawliau eiddo deallusol (gan gynnwys, heb gyfyngiad, unrhyw hawlfreintiau, patentau, nodau masnach, cyfrinachau masnachol neu hawliau eraill) yn y cynnwys. Trafnidiaeth Cymru neu Via yn unig (yn dibynnu ar amgylchiadau'r achos) (a'u trwyddedwyr, lle y bo'n berthnasol) sy'n berchen ar yr holl hawl, teitl a buddiant, gan gynnwys yr holl hawliau eiddo deallusol cysylltiedig â'r Ap. Nodau masnach Trafnidiaeth Cymru, Via neu drydydd partion yw logos Trafnidiaeth Cymru a Via, ac enwau'r cynnyrch sy'n gysylltiedig â'r Ap, ac ni roddir hawl na thrwydded i'w defnyddio.
- 9.4 Gall rhai deunyddiau sydd ar gael i'w lawrlwytho o'r Ap neu drwy'r Ap fod yn amodol ar amodau a thelerau trwydded ychwanegol neu wahanol. Ac eithrio'r hyn a ddarperir o fewn y telerau hyn, ni chewch gopïo, addasu, cyfieithu, cyhoeddi, darlledu, trosglwyddo, dosbarthu, perfformio, arddangos na gwerthu unrhyw gynnwys sy'n ymddangos ar yr Ap neu drwyddo.

10. GOBLYGIADAU TORRI'R TELERAU HYN

- 10.1 Os nad ydych yn gweithredu'n dderbyniol yn unol â'r telerau hyn, efallai y byddwn yn gwahardd eich defnydd o'r Ap.

- 10.2 Bydd gennym hawl i ymchwilio i ac erlyn achosion o dorri'r telerau hyn hyd eithaf y gyfraith.
- 10.3 Rydym yn cadw'r hawl i atal neu derfynu eich cyfrif ac atal mynediad i'r Ap am unrhyw reswm, yn ôl ein disgrisiwn. Rydym yn cadw'r hawl i wrthod mynediad i chi i'r Ap yn y dyfodol.
- 10.4 Chi sy'n gyfrifol am unrhyw hawliadau, ffioedd, dirwyon, cosbau, ac unrhyw rwymedigaeth arall a ysgwyddir gennym ni, neu a achoswyd gan, neu oherwydd i chi dorri'r telerau hyn a'ch defnydd chi o'r Ap.

11. ATEBOLRWYDD

- 11.1 Mae ein hatebolrwydd wedi'i gyfyngu i unrhyw wybodaeth anghywir a/neu ffug a ddarparwn i chi drwy'r Ap sy'n ymwneud â manylion eich taith neu am fethu â throsglwyddo manylion archebu i'r cwmni bysiau perthnasol unwaith y bydd eich archeb wedi'i gwneud. Nid ydym yn gyfrifol am fethiant y cwmni bysiau i gyflawni'ch taith yn unol â'r archeb a wnaed gyda ni, unrhyw oedi o ran amseroedd casglu neu ollwng neu unrhyw golled neu ddifrod a gawsoch yn sgil teithio gyda'r cwmni bysiau sy'n gyfrifol am y daith a archebwyd ymlaen llaw. Caiff unrhyw faterion sy'n ymwneud â'ch taith gyda'r cwmni bysiau eu rheoli gan amodau cludo ar wahân fel y nodir yng nghymal 14 isod.
- 11.2 Os ydych am ddwyn hawliad yn ein herbyn am dorri'r telerau hyn am y trydydd tro, byddwn yn gyfrifol i chi am golled neu ddifrod a ddiodefwch sy'n ganlyniad rhagweladwy i dorri'r telerau hyn gennym ni neu ein methiant i ddefnyddio gofal a sgil rhesymol, ond nid ydym yn gyfrifol am unrhyw golled neu ddifrod na ellir ei ragweld.
- 11.3 Nid ydym yn eithrio nac yn cyfyngu mewn unrhyw ffordd ar ein hatebolrwydd i chi lle byddai'n anghyfreithlon gwneud hynny. Mae hyn yn cynnwys atebolrwydd am farwolaeth neu anaf personol a achosir gan ein hesgeulustod ni neu esgeulustod ein cyflogeion, asiantau neu isgontractwyr; am dwyll neu gamliwio twyllodrus neu am dorri eich hawliau cyfreithiol mewn perthynas â'r Ap.
- 11.4 Rydym yn cyflenwi'r Ap at ddefnydd domestig a phreifat yn unig. Os ydych chi'n defnyddio'r ap ar gyfer unrhyw ddiben masnachol, busnes neu ail-werthu ni fyddwn yn atebol i chi am golli elw, colli busnes, amharu ar fusnes, neu golli cyfle busnes.
- 11.5 Nid ydym yn atebol am weithredoedd defnyddwyr pan fyddant yn defnyddio'r Ap. Efallai y byddwn hefyd yn newid yr Ap unrhyw bryd, ac nid ydym yn atebol am sut y gallai hyn effeithio arnoch chi. Nid ydym yn gwarantu ansawdd na chywirdeb unrhyw gynnwys a welwch chi wrth ddefnyddio'r Ap neu wefannau eraill.
- 11.6 Efallai y byddwn yn newid, atal, neu'n terfynu unrhyw agwedd ar yr Ap ar unrhyw adeg, gan gynnwys oriau gweithredu neu argaeledd yr Ap neu unrhyw elfen ohono, heb rybudd nac atebolrwydd.
- 11.7 Nid ydym yn gwneud unrhyw sylwadau am gywirdeb, dibynadwyedd, cyflawnrwydd, nac amseroldeb unrhyw gynnwys yn yr Ap. Nid ydym chwaith yn gwneud unrhyw sylwadau am gywirdeb, dibynadwyedd, cyflawnder na phrydlondeb unrhyw gwmni bysiau a ddefnyddir i wneud y siwrnai a archebir gennych.

12. TELERAU PWYSIG ERAILL

- 12.1 Efallai y byddwn yn trosglwyddo ein hawliau a'n rhwymedigaethau o dan y telerau hyn i sefydliad arall. Os bydd hyn yn digwydd, byddwn bob amser yn dweud wrthyhych yn ysgrifenedig ac yn sicrhau na fydd y trosglwyddiad yn effeithio ar eich hawliau o dan y telerau hyn.
- 12.2 Dim ond os byddwn yn cytuno i hyn yn ysgrifenedig y cewch drosglwyddo eich hawliau neu'ch rhwymedigaethau o dan y telerau hyn i unigolyn arall.
- 12.3 Mae'r Telerau hyn rhyngoch chi a ni. Ni chaiff unrhyw unigolyn arall unrhyw hawliau i orfodi unrhyw rai o'r telerau.
- 12.4 Mae pob paragraff yn y telerau hyn yn gweithredu ar wahân. Os bydd unrhyw lys neu awdurdod perthnasol yn penderfynu bod unrhyw rai ohonynt yn anghyfreithlon, bydd y paragraffau sy'n weddill yn parhau mewn grym ac effaith lawn.
- 12.5 Os nad ydym yn mynnu'n syth eich bod yn gwneud unrhyw beth sy'n ofynnol i chi ei wneud o dan y telerau hyn, neu os byddwn yn oedi cyn cymryd camau yn eich erbyn am dorri'r telerau hyn, ni fydd hynny'n golygu nad oes raid i chi wneud y pethau hynny ac ni fydd yn ein rhwystro rhag cymryd camau yn eich erbyn yn ddiweddarach. Er enghraifft, os byddwch yn methu taliad ac nad ydym yn dod ar eich ôl ond yn parhau i ddarparu'r cynhyrchion, gallwn ei gwneud yn ofynnol i chi wneud y taliad yn ddiweddarach.

13. AMODAU CLUDO

- 13.1 Pan fyddwch yn defnyddio'r Ap i archebu taith, byddwch yn ymrwymo i'r Telerau hyn gyda ni. Fodd bynnag, wrth wneud y siwrnai a archebwyd, byddwch yn ymrwymo i gontract gyda'r cwmni bysiau sy'n cyflawni'ch taith pan fyddwch yn mynd ar y bws. Mae gan bob cwmni bysiau amodau cludo sy'n nodi eich perthynas gyfreithiol â'r cwmni bysiau hwnnw mewn perthynas â'ch siwrnai ar eu cerbydau. Gall yr amodau cludo hyn gynnwys amodau cludo fflecsi penodol sy'n berthnasol rhyngoch chi a'r cwmni bysiau yn ogystal ag amodau cludo safonol y cwmni dan sylw, pan fyddwch yn gwneud siwrnai a drefnir drwy'r Gwasanaethau.
- 13.2 Eich lle chi yw darllen a deall amodau cludo'r cwmni bysiau ac amodau fflecsi penodol cyn gwneud eich siwrnai. Mae amodau cludo safonol y cwmni bysiau ac unrhyw amodau fflecsi penodol i'w gweld ar wefan www.ffelesi.cymru.